

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Ionawr 11: Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch a Chyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn am 5.00 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Ionawr 11: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch ac oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Ionawr 11: Dim oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Ionawr 8: 'Bwrlwm' am 2.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 11: Y Gweinidog am 2.00 o'r gloch.

CARMEL

Nos Wener, Ionawr 9: 'Dwylo Prysur' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 11: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Y Parchg Ddr Dafydd Wyn Wiliam am 2.00 o'r gloch.

Y mis nesaf - Deiniolen

Ionawr 4

10.00 a.m. - Y Gweinidog

Ionawr 11

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Cyfarfod Gweddi
Dechrau'r Flwyddyn

Ionawr 18

10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweindog

Ionawr 25

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Ionawr 9: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.



Blwyddyn Newydd Dda

i holl aelodau'r Ofalaeth

a phawb ohonoch

sy'n darllen *Gronyn*

bob wythnos

ar bapur neu ar y We

Y mis nesaf - Llanberis

Ionawr 4

10.00 a.m. - Mr Dafydd Iwan
5.00 p.m. - Mr Richard Lloyd Jones

Ionawr 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Ionawr 18

10.00 a.m. - Mr Ifor Glyn Efans
11.15 a.m. - Yr Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Geraint Roberts

Ionawr 25

10.30 a.m. - Oedfa Deulu



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 619- Dydd Sul, 04 Ionawr, 2015

Tri phoster

Y cyntaf o'r tri phoster ar wal yr orsaf drenau a ddenodd fy sylw. Yr adnod gyfarwydd o Efengyl Ioan oedd i'w gweld arno: 'Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol' (Ioan 3:16). Yng nghanol yr holl hysbysebion amrywiol, roedd neges yr Efengyl yn wynebu pwy bynnag a welodd y geiriau hyn. A phwy a wŷr faint o bobl a ddechreuodd feddwl am newyddion da'r Efengyl wedi iddyn nhw weld y poster hwn?

Wn i ddim pwy a luniodd y poster a threfnu i'w osod yn yr orsaf honno. Mae'n fwy na thebyg bod degau os nad cannoedd o gopïau ohono i'w gweld mewn gorsafoedd a mannau cyhoeddus eraill. Trwy'r posteri hyn, daw Gair Duw i sylw llawer o bobl na fyddai fel arall yn ei glywed o gwbl, a gallwn ddiolch am hynny.

Ac yna fe welais y ddau boster arall a osodwyd wrth ymyl yr adnod. Doedd yna ddim cyswllt amlwg rhyngddyn nhw. Tri phoster wedi eu gosod gyda'i gilydd ar hap oedden nhw. Hysbyseb Nadolig siop gwerthu dvd's oedd y naill a sôn am daith grwp pop enwog oedd y llall.

Ar y cyntaf, y geiriau 'HAVE YOU?' mewn llythrennau breision ar waelod y poster a ddenodd fy sylw. (Dim ond ar ôl craffu a gweld 'We've got Christmas boxed up' mewn geiriau llai uwchben lluniau'r dvd's y deallais yr ergyd.) Ac

ar yr ail yr oedd hysbyseb lliwgar i al-bwm neu daith ddiweddaraf y band poblogaidd *Take That*.

Na, doedd dim cyswllt amlwg rhwng y tri phoster. Ac eto, fedrwn i ddim peidio â rhyfeddu at yr her fawr a'm hwynebai o gael cip sydyn ar y tri. I ddechrau, neges fawr yr Efengyl trwy'r adnod a'i haddewid fawr o fywyd i 'bob un sy'n credu' yn yr Arglwydd Iesu Grist. Ac yna'r her fawr yn y geiriau, 'Have you?' Ydych chi wedi credu? Wyt ti wedi credu? Mae'r bywyd tragwyddol wedi ei addo i bawb sy'n credu yn y Gwardwr. Ie, y rhai sy'n credu - a dim ond y rhai sy'n credu - yn y Gwardwr Iesu sy'n cael y bywyd hwn. Ac felly, diolchwn am gael ein herio trwy'r cwestiwn holl bwysig, 'Wyt ti wedi credu?'

Gogoniant yr Efengyl yw bod y bywyd tragwyddol ar gael yn rhad i bawb sy'n credu, a Duw ei hun yn ein hannog i'w dderbyn. Cymer ef! Cymer y bywyd hwn sydd yn Iesu Grist ar dy gyfer; y bywyd cyflawn a gwell yn y byd hwn, a'r bywyd a fydd yn para byth yn y nefoedd. 'Take that!' A dyna atgoffa ein gilydd o'r newydd mai rhodd i'w derbyn yw'r bywyd tragwyddol hwn ac nid rhywbeth a enillwn ni trwy ein daioni a'n hymdrechion a'n duwioldeb ein hunain. Rhodd Duw i ni ydyw, ac fe welwn yn yr adnod mai cariad Duw tuag atom sy'n gyfrifol am y rhodd honno. A pha well ffordd o ddechrau blwyddyn newydd na thrwy ddiolch i Dduw am roi ei unig Fab trosom?

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Blwyddyn Newydd

Ar Sul cyntaf 2015 dymunaf Flwyddyn
Newydd Dda i bawb ohonoch.

Gweddiwn dros ein gilydd o'r newydd
ar ddechrau'r flwyddyn, ac erfyniwn am
fendith fawr Duw i'r naill a'r llall wrth i
ni wynebu pa beth bynnag a ddaw i'n
hwynebu fel unigolion a theuluoedd ac
eglwysi a chymdogaethau a gwlad a
byd eleni. Ar hyn o bryd, mae'r cyfan a
ddaw yn guddiedig i ni, er yn hysbys i'r
Arglwydd. O ddydd i ddydd ar hyd y
flwyddyn newydd hon boed i ni brofi
nerth a chymorth Duw, a thrwy ei ras
boed i ni ei wasanaethu'n ffyddlon.

Dechrau Newydd

Ac ar ddechrau'r flwyddyn newydd
cawn groesawu dwy eglwys newydd i'r
Ofalaeth.

Mae eglwysi Annibynnol Bethlehem,
Talybont a Charmel, Llanllechid wedi
ymuno â'r Ofalaeth ers dechrau'r mis,
ac estynnwn groeso cynnes iddynt atom
i'r Ofalaeth.

Wrth i'r Ofalaeth ehangu penderfynwyd
rhoi enw newydd iddi, ac felly
'Gofalaeth Fro'r Llechen las' fydd yr
enw swyddogol o hyn allan.

Nid oedd yn ymarferol ychwanegu enw
dau bentref arall at hen enw'r Ofalaeth
gan y byddai gennym frawddeg o enw
i'w ddweud neu i'w sgwennu bob tro!
Mae'r enw newydd yn amlwg yn nodi
cefnidir chwarelyddol pentrefi'r Ofalaeth.

Edrychwn ymlaen at gydweithio er
mwyn hyrwyddo gwaith yr Efengyl a
Theyrnas Dduw yn ein plith.

Gronyn

Mae'n well dweud gair neu ddau am
Gronyn wrth aelodau'r eglwysi newydd.

Cyhoeddir y daflen fach hon bob Sul ar
gyfer aelodau eglwysi'r Ofalaeth. Fel y
gwelwch, ceir neges ar y dudalen flaen
ac yna ceir newyddion am ein gwahanol
gyfarfodydd. Ceisir sicrhau bob holl
oedfaon a chyfarfodydd yr eglwysi yn
cael eu cyhoeddi ymlaen llaw.

Mae *Gronyn* ar gael yn oedfaon y Sul, a
chaiff nifer o gopïau eu dosbarthu i rai o
aelodau'r eglwysi sy'n methu bod yn yr
oedfaon. Gwneir hynny gan aelodau
sy'n mynd â chopïau i aelodau sy'n byw
yn agos atynt, ac yr ydym yn ddiolchgar
iawn i bawb sy'n ein helpu gyda'r
gwaith hwn o Sul i Sul. Mae'r patrwm
hwn yn amrywio o eglwys i eglwys, yn
dibynnu'n llwyr ar bwy sy'n gallu
gwneud hyn. Gwyddom fod llawer sy'n
methu â dod i'r oedfaon yn falch o'i
dderbyn er mwyn cadw cyswllt â'r hyn
sy'n digwydd o fewn yr eglwysi.

Gobeithiwn y bydd *Gronyn* o wasanaeth
i eglwysi Bethlehem a Charmel fel i
weddill yr Ofalaeth. Nodir ar y dudalen
flaen mai dyma rifyn 619. Mae wedi ei
gyhoeddi'n wythnosol ers mis Medi
2001.

Gwefan Gronyn

Dyma gyfle hefyd i egluro bod gan yr
Ofalaeth wefan sy'n sôn am ei gwaith
a'i hamrywiol weithgareddau.

Fe welir cyfeiriadau'r Ofalaeth yn y
blwch ar y dudalen gyferbyn:

gronyn.wordpress.com
neu
gronyn.org

Mae Gronyn yn cael ei osod ar y wefan
bob wythnos, ac felly os na fyddwch
wedi cael copi ohono gallwch ei ddarllen
ar y wefan. Erbyn hyn, wrth gwrs,
mae'n well gan rai ddarllen gwahanol
gyhoeddiadau ar y We, ac felly bydd
modd i chi ddarllen rhifyn diweddaraf
Gronyn ar y wefan hon bob wythnos.
Fel arfer, bydd wedi ei osod ar y wefan
erbyn nos Sul, neu nos Lun fan bellaf.

Fe gaiff y wefan ei hun ei diweddarau cyn
ynted â phosib gydag enw newydd yr
Ofalaeth ynghyd â manylion am y ddwy
eglwys newydd.

Gobeithio y bydd y wefan hefyd o fudd i
chi.

Heddiw

Croeso cynnes felly i oedfaon Sul cyntaf
y flwyddyn newydd. Gwasanaethir yn
Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr
Dafydd Iwan, Caeathro ac am 5.00 o'r
gloch gan Mr Richard Lloyd Jones,
Bethel.

Byddaf fi'n arwain yr oedfa yn
Neiniolen am 10.00 o'r gloch. Nid oes
oedfa heno.

Gwasanaethir ym Methlehem am 2.00
o'r gloch gan y Parchg W H Pritchard.
Byddaf fi'n arwain yr Oedfa Gymun yng
Ngharmel am 5.00 o'r gloch.

Nid oes oedfa yn Rehoboth.

Cofion

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Phyllis
Morris, Bryn Tirion, Rhiwen, Deiniolen
yn y brofedigaeth o golli ei merch, Ann,
ddydd Gwener.

Oedfaon Nadolig

Ddydd Sul, Rhagfyr 21, cynhaliwyd
Oedfaon Nadolig yr Ysgolion Sul yn
Neiniolen a Llanberis. Diolch yn fawr
iawn i bawb a gymerodd ran yn y ddwy
oedfa, a diolch arbennig i athrawon yr
Ysgolion Sul a phawb a fu'n paratoi'r
gwasanaethau ac yn hyfforddi'r plant.
Cafwyd dwy oedfa arbennig iawn a
werthfawrogwyd gan bawb a gafodd y
frait o fod ynddynt yn cydaddoli ac yn
cyd-ddathlu'r Nadolig.

Parti Nadolig

Cynhaliwyd Parti Nadolig Ysgol Sul
Capel Coch nos Fawrth, Rhagfyr 23.
Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n helpu
i baratoi'r bwyd a'r gemau. Gobeithio
bod pawb wedi mwynhau ei hunain.
Daeth Sion Corn i'n gweld unwaith eto,
a diolchwn iddo am ddod â'r llyfrau yn
anrhegion i'r plant a'r ieuencid.

Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir y Cyfarfod Gweddi nesaf yn
nhy Andrew Settatee, Cartref, Caeathro
rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch fore
Gwener, Ionawr 9. Croeso i unrhyw un
ddod atom, ac nid oes rhaid poeni am
ddod bob wythnos os nad yw'n hwylus
wrth gwrs.